DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Adrannau Delweddu Diagnostig

Ysbyty Coffa Victoria,

Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu,

Ysbyty Cymuned Ystradgynlais

Dyddiad arolygu: 13–15 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8351-4


© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 3

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 6

5. Canfyddiadau ........ 8

Ansawdd Profiad y Claf ........ 8

Cydymffurfio â RhYÏ(DM) ........ 10

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 22

6. Y Camau Nesaf ........ 24

Atodiad A ........ 25

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth yr arolygiad ystyried adrannau delweddu diagnostig (radiograffeg) Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng), Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ac Ysbyty Cymuned Ystradgynlais o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYÏ(DM)) 2000 (a'u diwygiadau dilynol yn 2006 a 2011). Rydym yn gwneud hyn trwy raglen o asesu ac arolygu gwasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn y sectorau annibynnol sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio.

Mae'r rheoliadau'n gosod cyfrifoldebau ar ymarferwyr, gweithredwyr a'r rheiny sy'n atgyfeirio cleifion am ddatguddiadau meddygol, a chyflogwyr y tri grŵp hyn. O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r cyflogwr greu fframwaith ar gyfer cyflenwi ymbelydredd ïoneiddio mewn modd diogel, effeithlon ac effeithiol trwy ddarparu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Gall torri'r rheoliadau arwain at gyflwyno hysbysiadau gwahardd, hysbysiadau gwella, neu achosion troseddol.

Dylunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad anfwriadol, gormodol, neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg sy'n gysylltiedig â'r datguddiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol (cyfiawnhad).

- Nid yw cleifion yn cael eu datguddio mwy nag sydd angen i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg bresennol (optimeiddio).

- Nad yw ymarferwyr na gweithredwyr yn ymgymryd ag unrhyw ddatguddiad meddygol oni bai eu bod wedi cael eu hyfforddi'n briodol. Mae cyflogwyr yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu a bod cofnodion yr hyfforddiant hwn yn cael eu cynnal.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan bedair thema:

- Ansawdd Profiad y Claf

- Cydymffurfiad â RhYÏ(DM)

- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Gwybodaeth a ddarperir gan yr adran yn Ffurflen Hunanasesu AGIC
- Trafodaethau â staff (lle bo'n briodol) ac uwch-reolwyr
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio ystafelloedd triniaeth a'r amgylchedd
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth.

Mae’r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn, sef y graddau y mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau diogelwch ac ansawdd hanfodol ac unrhyw beth a all gyfeirio at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir.

## 3. Cyd-destun

**Gweithgarwch**

Bob blwyddyn, mae'r adrannau delweddu diagnostig yn cynnal oddeutu'r nifer canlynol o weithdrefnau radiograffeg 'ffilm blaen' cyffredinol:

- Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng) – 4875
- Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu – 7275
- Ysbyty Cymuned Ystradgynlais – 4597

Mae'r adrannau hefyd yn cynnal gweithdrefnau sganio uwchsain meddygol a chyn-geni. Mae'r adran yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu yn cynnal gweithdrefnau radiograffeg deintyddol hefyd.

**Cyfarpar**

Roedd gan bob adran delweddu diagnostig offer pelydr-X cyffredinol ac offer sganio uwchsain. Roedd gan bob adran offer pelydr-X symudol, a defnyddiwyd offer pelydr-X deintyddol yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu hefyd.

**Yr amgylchedd**

Roedd un neu ddwy ystafell driniaeth pelydr-X gyffredinol a mannau aros dynodedig ym mhob adran.

**Staffio**

O ran staffio, roedd y staff canlynol yn gweithio yn yr adrannau:

Ysbyty Coffa Victoria

- 1 Radiolegydd Ymweld (3 sesiwn y mis trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
- 2.82 Radiograffydd cyfwerth ag amser llawn (CALl)
- Arbenigwr Ffiseg Feddygol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
- 2.5 Gweithiwr Cymorth 2.5 CALl

Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu

- i.3 Radiograffydd CALl ynghyd â 0.3 Arweinydd Tîm CALl llawn

- Sonograffwyr Ymweld (2 ddiwrnod yr wythnos trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg)
- Arbenigwr Ffiseg Feddygol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre)

<u>Ysbyty Cymuned Ystradgynlais</u>

- 1 Radiolegydd Ymweld (1 diwrnod yr wythnos trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg)
- 0.4 Uwch Radiograffydd Practis CALl (radiograffydd adrodd)
- 1 Radiograffydd CALl yn ogystal â 0.3 Arweinydd Tîm CALl
- Sonograffwyr Ymweld (2 sesiwn yr wythnos trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg)
- Arbenigwr Ffiseg Feddygol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg)

## 4. Crynodeb

Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch a chwrteisi ym mhob un o'r adrannau y gwnaethom ymweld â nhw. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol hefyd ynghylch y dull o weithredu ac agwedd y timau staff. Gwelsom fod pob un o'r adrannau'n lân ac yn daclus, a gwnaed ymdrechion i wneud y mannau aros yn gyfforddus ac yn groesawgar.

Cadarnhaodd y cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth fynd i'r adrannau ar gyfer eu gweithdrefnau delweddu diagnostig.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi canfod cyflogwr dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Ym mhob safle, Prif Weithredwr y bwrdd iechyd oedd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael eu gweithredu o fewn y gwasanaeth. Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy swydd wag tymor hir o fewn strwythur llywodraethu RhYÏ(DM) y bwrdd iechyd. Esboniodd uwch staff y bwrdd iechyd a'r ysbyty y gwnaed ymdrechion sylweddol i recriwtio i'r swyddi hyn. O ganlyniad, dywedwyd wrthym fod un o'r swyddi wedi'i llenwi ac roedd y person ar fin dechrau yn ei swydd.

Roedd y cyflogwr wedi sefydlu gweithdrefnau ysgrifenedig fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Gwnaethom ganfod fod angen adolygu a diwygio nifer o'r rhain er mwyn hybu mwy o eglurder ar gyfer timau staff adrannol. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hawl atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr a'u manylion adnabod fel y diffinnir dan y RhYÏ(DM).Fodd bynnag, daeth i'r amlwg fod unigolion a oedd yn gwneud swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr, ond yn ôl y weithdrefn ysgrifenedig, nid oedd y cyflogwr wedi rhoi'r hawl iddynt wneud hynny.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau y cedwir dosau datguddiadau meddygol mor fach ag sy'n rhesymol bosibl**.** Roedd trefniadau ar waith hefyd i roi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau meddygol ar gyfer plant, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer nodedig. Gwelsom arfer nodedig hefyd yn ymwneud â sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol, monitro ffurflenni atgyfeirio a hysbysu atgyfeirwyr o'u cyfrifoldebau.

Gwelsom arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn cael ei darparu gan staff y radiograffydd arweiniol. O sgwrsio gyda staff o bob lefel a gymerodd ran yn yr arolygiad, roedd yn amlwg eu bod yn ymroddedig iawn i ddysgu oddi wrth yr arolygiad, ac i wneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd dwy swydd wag o fewn strwythur llywodraethu RhYÏ(DM) y bwrdd iechyd, a deallir y gwnaed ymdrechion sylweddol i ymdrin â'r swydd wag a oedd ar ôl, a bod y gwaith hwnnw'n parhau. Yn ogystal, disgrifiwyd cynlluniau i atgyfnerthu'r cymorth presennol oddi wrth fyrddau iechyd cyfagos, yr oedd gan y bwrdd iechyd gytundebau lefel gwasanaeth gyda nhw. Er i drefniadau dros dro gael eu disgrifio, roedd yn amlwg bod yn rhaid i'r arweinwyr tîm clinigol ysgwyddo gwaith a chyfrifoldeb ychwanegol, ac nid yw hynny, o bosibl, yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella i fynd i’r afael â'r gwelliant angenrheidiol a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch a chwrteisi ym mhob un o'r adrannau y gwnaethom ymweld â nhw. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol hefyd ynghylch y dull o weithredu ac agwedd y timau staff. Gwelsom fod pob un o'r adrannau'n lân ac yn daclus, a gwnaed ymdrechion i wneud y mannau aros yn gyfforddus a chroesawgar.**

**Cadarnhaodd y cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth fynd i'r adrannau ar gyfer eu gweithdrefnau delweddu diagnostig.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r tair adran radiograffeg ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion, er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Gwnaethom geisio barn y cleifion hefyd trwy siarad â'r rhai a fynychodd yr adrannau yn ystod ein harolygiad. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 42 holiadur.

Nododd yr holl gleifion/gofalwyr a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn ac roeddent yn canmol dull gweithredu ac agwedd y timau staff, safon glendid yr adrannau a'r amseroldeb o ran cael eu gweld. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol,

> 'Gwasanaeth arbennig ar stepen fy nrws. Ni wela'i ddim o'i le arno. Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar.'
>
> *'…Rwy'n gweld pawb yn gymwynasgar iawn.'*
>
> *'Amser aros lleiaf posibl, staff hyfryd.'*
>
> *'...Rwyf bob amser wedi derbyn gwasanaeth cyflym ac effeithlon.'*
>
> *'...Roedd staff y gwnes i gwrdd â nhw yn gwrtais ac yn gymwynasgar iawn, a gwnaethant i mi deimlo'n gartrefol...'*
>
> *'Mae'r ysbyty cyfan yn lân iawn, mae'n bleser dod i ymweld.'*
>
> *'Maent yn gwneud gwaith gwych!'*
>
> *'Mae'r staff yn gymwynasgar iawn, rydyn ni mor lwcus i gael y gwasanaeth hwn yn ein cymuned.'*
>
> *'Gwasanaeth ardderchog – diolch.'*

Gwelsom y timau staff adrannol yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y sylwadau a gawsom gan gleifion. Roedd ciwbiclau newid ar gael ym mhob un o'r adrannau y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd y rhain yn cynnig preifatrwydd i gleifion pe bai angen iddynt wisgo/tynnu gynau urddas (ysbyty).

Aethpwyd â ni ar daith o amgylch pob adran. Gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus. Gwnaeth y cleifion a roddodd sylwadau nodi hefyd eu bod yn fodlon ar safon glendid yr adrannau yr oeddent wedi ymweld â nhw.

Gwnaed ymdrechion i wneud yr ystafelloedd aros yn ddymunol i'r cleifion aros, er enghraifft, gwelsom fod lluniau'n cael eu harddangos, bod cerddoriaeth lefel isel yn cael ei chwarae, a bod deunydd darllen ar gael. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr adrannau ac roedd staff yr ysbyty wrth law i roi cyfarwyddiadau yn ôl yr angen. Nododd y cleifion a gwblhaodd holiaduron a'u dychwelyd, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw, eu bod wedi llwyddo i ddod o hyd i'w ffordd i'r adrannau'n rhwydd.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gael yn rhwydd yn y mannau aros. Nododd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod o'r farn eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaethau.

Dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth fynychu ar gyfer eu triniaethau. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynghylch amseroldeb o ran pryd cawsant eu gweld.

## *Cydymffurfio â RhYÏ(DM)*

**Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi canfod cyflogwr dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Ym mhob safle, Prif Weithredwr y bwrdd iechyd oedd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael eu gweithredu o fewn y gwasanaeth. Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy swydd wag tymor hir o fewn strwythur llywodraethu RhYÏ(DM) y bwrdd iechyd. Esboniodd uwch staff y bwrdd iechyd a'r ysbyty y gwnaed ymdrechion sylweddol i recriwtio i'r swyddi hyn. O ganlyniad, dywedwyd wrthym fod un o'r swyddi wedi'i llenwi ac roedd y person ar fin dechrau yn ei swydd.**

**Roedd y cyflogwr wedi sefydlu gweithdrefnau ysgrifenedig fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Gwnaethom ganfod fod angen adolygu a diwygio nifer o'r rhain er mwyn hybu mwy o eglurder ar gyfer timau staff adrannol. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hawl atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr a'u manylion adnabod fel y diffinnir dan y RhYÏ(DM. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg fod unigolion oedd yn gwneud swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr, ond yn ôl y weithdrefn ysgrifenedig, nid oedd y cyflogwr wedi rhoi'r hawl iddynt wneud hynny.**

**Roedd trefniadau ar waith i sicrhau y cedwir dosau datguddiadau meddygol mor fach ag sy'n rhesymol bosibl. Roedd trefniadau ar waith hefyd i roi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau meddygol ar gyfer plant, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer nodedig.  Gwelsom arfer nodedig hefyd yn ymwneud â sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol, monitro ffurflenni atgyfeirio a hysbysu atgyfeirwyr o'u cyfrifoldebau.**

### Dyletswyddau'r cyflogwr

*Diffinnir y cyflogwr yn Rheoliad 2 (1) fel unrhyw berson naturiol neu gyfreithlon sydd, yng nghyswllt masnach, busnes neu fenter arall, yn cyflawni (ac eithrio fel gweithiwr cyflogedig), neu'n cyfarwyddo eraill i gyflawni, datguddiadau meddygol neu elfennau ymarferol mewn gweithfa radiolegol benodol.*

Dynodwyd Prif Weithredwr y bwrdd iechyd fel y cyflogwr. Gwelir hyn yn aml, ac mae'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer gweithredu deddfwriaeth Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) fel y mae'n berthnasol i radioleg ddiagnostig a radioleg ymyriadol.

Mae dogfen Polisi Amddiffyn Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio'r bwrdd iechyd yn nodi mai'r Prif Weithredwr oedd yn atebol yn gyfreithiol am weithredu'r ymbelydredd ïoneiddio a ddefnyddir yn adeiladau'r bwrdd iechyd mewn modd diogel. Roedd y ddogfen yn nodi cyfrifoldebau'r cyflogwr. Fodd bynnag, gellid fod wedi eu gwneud yn gliriach i ddisgrifio mewn termau ymarferol yr hyn sy'n digwydd yn weithredol. Roedd angen ei diweddaru hefyd i nodi nad oedd fflworosgopeg yn cael ei darparu mwyach gan yr adrannau pelydr-X yn Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng) nac yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu.

Roedd y ddogfen bolisi uchod yn cynnwys y strwythur sefydliadol gan ddangos y llinellau adrodd, atebolrwydd a dirprwyo o ran y RhYÏ(DM).Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy swydd yn wag, sef Cyfarwyddwr Therapi a Gwyddor Iechyd a Phennaeth Proffesiynol Radiograffeg. O edrych ar y ddogfen, nid oedd yn glir pwy oedd wedi cymryd y cyfrifoldeb dros gyflawni'r swyddogaethau hyn yn y cyfamser.

O drafod â'r uwch staff, roedd yn amlwg bod trefniadau dros dro wedi'u rhoi ar waith, ond roedd yn ymddangos bod mwy o bwysau gwaith ar y timau adrannol clinigol er gwaethaf y trefniadau hyn. Caiff ein canfyddiadau pellach yn ymwneud â hyn eu nodi dan yr adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

O ystyried ein canfyddiadau, dylid adolygu a diwygio'r ddogfen i adlewyrchu'r trefniadau presennol o ran RhYÏ(DM). Rhaid i'r cyflogwr hefyd sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau a ddirprwyir i'r staff yn cael eu gwneud yn briodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r cyflogwr wneud trefniadau addas i adolygu a diwygio'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio er mwyn rhoi mwy o eglurder ac i adlewyrchu'r trefniadau presennol.***

Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig wedi'u datblygu yn unol â'r ddeddfwriaeth RhYÏ(DM). Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diwygio nifer o'r gweithdrefnau i adlewyrchu'r arfer cyfredol ar draws yr adrannau y gwnaethom ni ymweld â nhw.

Gwelsom hefyd fod trefniadau ar waith ar gyfer gweithgarwch sicrhau ansawdd (gan gynnwys dogfennau), i hyfforddi ymarferwyr a gweithredwyr yn ddigonol, ac i ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd amdanynt. Dyletswyddau'r cyflogwr yw'r rhain i gyd, yn unol â'r RhYÏ(DM). Roedd ein canfyddiadau, a ddisgrifir trwy gydol yr adroddiad hwn, yn dangos bod angen gwella'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau hyn.

**Gweithdrefnau a Phrotocolau**

*Mae rheoliad 4 (1) a 4 (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith.*

Cyn ein hymweliad arolygu, rhoddwyd copi i ni o *Weithdrefnau Gweithredu Safonol y cyflogwr mewn Radiograffeg*. Ar adeg ein harolygiad, roedd hwn wedi'i ddiweddaru a rhoddwyd copi i ni o'r fersiwn ddiwygiedig. Gwnaethom gadarnhau bod y ddogfen ddiwygiedig hon yn berthnasol i bob un o'r adrannau radiograffeg y gwnaethom eu harolygu.

Ar y cyfan, roedd y gweithdrefnau gweithredu safonol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gweithdrefnau'r cyflogwr fel sy'n ofynnol dan RhYÏ(DM). Disgrifiodd yr uwch staff adrannol clinigol y broses ar gyfer adolygu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig, a'r system ar gyfer hysbysu staff am unrhyw newidiadau a wnaed. Cadarnhaodd y staff adrannol y gwnaethom siarad â nhw fod y system a ddisgrifiwyd yn eu hysbysu am newidiadau hefyd.

O sgwrsio â'r uwch staff adrannol clinigol yn ystod ein harolygiad, daeth yn amlwg fod angen adolygu a diwygio nifer o'r dulliau gweithredu safonol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion presennol yn llawn, a hybu mwy o eglurder ar gyfer y staff sy'n eu defnyddio. Gellir gweld ein canfyddiadau penodol ynglŷn â'r materion hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad dan yr adran hon.

Roedd ein harolygiad yn canolbwyntio ar yr adrannau radiograffeg yn y tri ysbyty y gwnaethom ymweld â nhw. Fodd bynnag, gwnaethom fanteisio ar y cyfle i ymweld â theatrau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu gan ei bod yn amlwg bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio yn y theatr nad oedd o dan awdurdodaeth yr adran radiograffeg.

Gwelsom nad oedd staff y theatr yn ymwybodol bod dulliau gweithredu safonol y cyflogwr wedi'u diweddaru. Yn hytrach, roedd ganddynt y fersiynau blaenorol nad oeddent yn gyfredol bellach. Gwnaethom hysbysu uwch staff yr ysbyty o'n canfyddiadau fel bod modd darparu'r fersiynau diweddaraf. Gwnaethant gytuno i wneud hyn. O ystyried ein canfyddiadau, mae angen i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau cyfredol a'u bod yn cael eu rhoi iddynt.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau cyfredol yn ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a'u bod yn cael eu rhoi iddynt.***

Yn ogystal, nid oedd unrhyw gofnodion cyfredol o hyfforddiant ar gael, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gyfer staff sy'n gweithio mewn theatr. Rydym wedi disgrifio'r gwelliant mae angen ei wneud yn hyn o beth yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn (gweler yr isadran *Hawl*).

**Hysbysiadau am ddigwyddiadau**

*Pan fydd digwyddiad lle bo unigolyn wedi bod yn agored i lawer mwy o ymbelydredd ïoneiddio nag a fwriadwyd wrth dderbyn datguddiad meddygol, mae Rheoliad 4 (5) yn datgan y dylai'r sefydliad gofal iechyd ymchwilio i hynny a hysbysu'r awdurdod priodol.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer adrodd, cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn disgrifio'n glir dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid adrodd am ddigwyddiad ac ym mha ffordd, ynghyd â'r wybodaeth y mae angen ei chyflwyno trwy system adrodd electronig y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, cyfeiriwyd (yn Atodiad 1 y weithdrefn ysgrifenedig) at ddefnyddio lluosyddion lefelau cyfeirio diagnostig (DRL).Gwnaethom drafod hyn ag un o'r ymgynghorwyr amddiffyn rhag ymbelydredd, a oedd yn cytuno bod angen egluro hyn. Felly, dylai'r cyflogwr wneud trefniadau i adolygu a diwygio'r weithdrefn ysgrifenedig yn unol â hynny.

Mae angen hysbysu AGIC am rai digwyddiadau ac roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid adolygu a diwygio'r weithdrefn er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r wybodaeth gyfredol sy'n ofynnol gan AGIC, gan nad oedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn gyfredol yn hyn o beth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn J) yn ymwneud ag adrodd am ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n ofynnol gan AGIC wrth adrodd am ddigwyddiadau dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio.***

Cadarnhaodd yr uwch staff adrannol na fu unrhyw ddigwyddiadau yr oedd angen eu hadrodd i AGIC. Felly, er na welsom enghreifftiau o ddysgu o ganlyniad i ddigwyddiadau, roedd y weithdrefn yn cyfeirio at yr angen i gymryd camau gweithredu dilynol i leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau tebyg eto.

**Lefelau cyfeirio diagnostig**

*Mae Rheoliad 4(3)(c) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cyflogwr sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig (DRL) ar gyfer archwiliadau diagnostig radio. Ni ddisgwylir i weithdrefnau safonol fynd y tu hwnt i'r rhain wrth weithredu arferion da a chyffredin o ran perfformiad diagnostig a thechnegol.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer monitro lefelau cyfeirio diagnostig (DRLs) a gwelsom fod y cyflogwr wedi sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau a wneir yn yr adrannau radiograffeg y gwnaethom ymweld â nhw.

Yn ogystal â'r ffaith bod lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol ar gael, gwelsom fod lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi'u sefydlu hefyd i ystyried y boblogaeth leol a'r offer a ddefnyddir. Gwnaethom nodi fod hyn yn enghraifft o arfer nodedig. Roedd lefelau cyfeirio diagnostig a lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gael, ac roeddent yn weladwy yn yr adrannau radiograffeg y gwnaethom ymweld â nhw.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gweld bod dosau datguddiadau wedi'u cofnodi at ddibenion archwilio a monitro. Roedd y staff yn ymwybodol o weithdrefn y cyflogwr i'w dilyn pe bai'r lefel cyfeirio diagnostig (DRL) yn rhy uchel.

**Hawl**

*Mae Rheoliad 2 (1) yn nodi ei bod yn ofynnol i ddeiliaid dyletswyddau, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, feddu ar yr hawl i wneud y tasgau a wnânt. Mae Rheoliadau 11 (1) ac 11 (4) yn datgan bod yn rhaid i ymarferwyr a gweithredwyr fod wedi'u hyfforddi'n briodol hefyd, ac mae'n rhaid i'r cyflogwr gadw cofnodion hyfforddiant cyfredol o'r hyfforddiant hwn.*

Mae'r RhYÏ(DM) yn diffinio pedwar deiliad dyletswyddau, sef y cyflogwr, yr atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hawl ac adnabod atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr fel y diffinnir dan y RhYÏ(DM). Roedd deiliaid y dyletswyddau hyn yn cael eu hadnabod fesul grŵp staff ac roedd y weithdrefn yn nodi cwmpas yr arfer ar gyfer pob grŵp staff a'r lefel hyfforddiant ddisgwyliedig.

Gwelsom fod cyfeiriad at ymarferydd deintyddol a gweithwyr proffesiynol deintyddol. Gwnaethom argymell y dylid diwygio'r weithdrefn ysgrifenedig i ddiffinio'n glir y categori ymarferydd deintyddol/gweithiwr proffesiynol deintyddol y cyfeirir ato gan fod hyn yn aneglur i'r tîm arolygu a'r staff clinigol a gafodd eu

cyfweld. Efallai y byddai'r cyflogwr yn dymuno defnyddio a chyfeirio at y categorïau hynny y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yn eu defnyddio.

O drafod â'r uwch staff, daeth i'r amlwg fod unigolion a oedd yn gwneud swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr, ond yn ôl y weithdrefn ysgrifenedig, nid oedd y cyflogwr wedi rhoi'r hawl iddynt wneud hynny. Er enghraifft, cawsom ein hysbysu bod Llawfeddygon Orthopedig Ymgynghorol a Phodiatrydd Ymgynghorol yn cyflawni swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu wrth ddefnyddio'r uned 'Mini C-arm Fluoroscopy' mewn theatrau. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod meddygon teulu'n cyflawni swyddogaethau gweithredwyr yn Ysbyty Coffa Victoria a bod meddygon teulu ac uwch ymarferwyr nyrsio yn cyflawni swyddogaethau gweithredwr yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ac Ysbyty Cymuned Ystradgynlais wrth werthuso delweddau'n glinigol sy'n cael eu defnyddio wedyn i drin cleifion. Nid oedd cofnodion hyfforddiant ar gael i'w harchwilio ar gyfer y staff hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau addas i sicrhau bod unigolion yn cael hyfforddiant priodol a rhoi'r hawl iddynt, fel ymarferwyr a gweithredwyr, wneud y tasgau gofynnol.***

***Rhaid adolygu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn C) yn adnabod dynodi deiliaid dyletswyddau, i nodi'n glir grwpiau staff, cwmpas yr arfer, a'r gofynion o ran hyfforddiant i atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr sy'n meddu ar yr hawl.***

Gwelsom sampl o gofnodion hyfforddiant ymarferwyr a gweithredwyr a oedd yn gweithio fel radiograffwyr yn y tair adran radiograffeg y gwnaethom ymweld â nhw. Ar y cyfan, roedd y rhain yn dangos bod deiliaid y dyletswyddau hyn wedi mynychu hyfforddiant a phryd y cawsant eu hystyried yn gymwys. Lle'r oedd bylchau, gwnaethom ddangos y rhain i'r uwch staff adrannol ac roedd yn galonogol gweld yn ystod ein harolygiad bod trefniadau'n cael eu gwneud i roi sylw i hyn.

Mae AGIC yn cydnabod bod llawer o'r staff yn brofiadol a'u bod yn gweithio yn yr adrannau ers amser hir. Gwelsom dystiolaeth hefyd o ddysgu parhaus yn ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus unigolion. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai fod tystiolaeth ôl-weithredol o hyfforddiant priodol ar ffeil ar gyfer yr unigolion hynny er cyflawnrwydd. Byddai hyn yn dangos yn ffurfiol eu hyfforddiant a'u cymhwysedd i fod â'r hawl fel deiliaid dyletswyddau.

## Meini prawf atgyfeirio

*Mae Rheoliad 4 (3) (a) yn nodi y dylai'r cyflogwr sefydlu argymhellion mewn perthynas â'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys dosau ymbelydredd, a dylai sicrhau eu bod ar gael i'r atgyfeiriwr.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ynghylch atgyfeiriadau ar gyfer datguddiadau meddygol.

Roedd y weithdrefn yn nodi bod yr holl staff meddygol a deintyddol cymwysedig yn meddu ar yr hawl i wneud atgyfeiriadau. Roedd hefyd yn datgan bod trefniadau ar waith i nodi atgyfeirwyr nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant meddygol yn y polisïau lleol, er enghraifft, uwch ymarferwyr nyrsio sy'n gweithio o fewn y bwrdd iechyd. Roedd y staff adrannol y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r trefniadau lleol sydd ar waith ac sy'n berthnasol yn eu hardal.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cynnwys y meini prawf atgyfeirio i'w defnyddio gan atgyfeirwyr ar gyfer radiograffeg gyffredinol a radiograffeg ddeintyddol. Fodd bynnag, nid oedd yn glir pa fersiwn o feini prawf atgyfeirio a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer radiograffeg gyffredinol.

Nodwyd bod y llythyr a anfonwyd at reolwyr practisau yn hysbysu atgyfeirwyr o'r cyfrifoldebau, yn arfer da. Yn ystod trafodaethau â'r staff, daeth yn amlwg y gallai'r llythyr hwn gael cwmpas ehangach ac y gellid ei ddefnyddio i'w hatgoffa a'u hysbysu am fwy o gyfrifoldebau deiliad dyletswyddau.

Roedd proses glir i'r staff ei dilyn ar gyfer atgyfeiriadau annigonol a oedd yn cynnwys cadw cofnod o ffurflenni a ddychwelwyd. Nodwyd bod hyn yn arfer nodedig lle'r oedd gwersi'n cael eu dysgu a chamau'n cael eu cymryd pe bai tueddiadau'n dod i'r amlwg.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn nodi'n glir sut y gwnaed atgyfeiriadau ar gyfer datguddiadau meddygol a sut i ofyn am atgyfeiriad brys.

## Cyfiawnhad o Ddatguddiadau Meddygol Unigol

*Mae Rheoliadau 6 (1) (a) a 6 (1) (b) yn nodi ei bod yn ofynnol i gyfiawnhau ac awdurdodi pob datguddiad meddygol cyn y datguddiad. Yr ymarferydd sy'n gyfrifol am gyfiawnhau'r datguddiad meddygol. Ffordd o ddangos cyfiawnhad yw trwy ddarparu awdurdodiad, a chaiff yr ymarferydd wneud hyn, neu'r gweithredwr pan ddefnyddir canllawiau cyfiawnhau.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi datguddiadau meddygol. Roedd yn nodi'n glir bod pob radiograffydd a oedd yn gweithio yn y bwrdd iechyd, ar ôl derbyn hyfforddiant a chael ei

ystyried yn gymwys, yn meddu ar yr hawl i weithredu fel ymarferydd i gyfiawnhau ac awdurdodi datguddiadau.

Roedd y weithdrefn yn nodi'n fanwl y trefniadau ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi datguddiadau. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid diwygio'r weithdrefn ysgrifenedig er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y trefniadau ar gyfer cyfiawnhau datguddiadau 'y tu allan i oriau' gan nad oedd y staff yn sicr beth oedd yr adran hon o'r siart llif yn cyfeirio ati. Gwnaethom hefyd argymell y dylid adolygu'r cyfeiriad at y Protocol Archwilio ac Offer gan nad oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n adnabod y term hwn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn F) ynghylch cyfiawnhau ac awdurdodi fel y bo'n briodol er mwyn egluro'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau datguddiadau 'y tu allan i oriau' a'r cyfeiriad at y Protocol Archwilio ac Offer.***

Gwelsom enghreifftiau o nifer o ffurflenni atgyfeirio wedi'u cwblhau ym mhob un o'r adrannau radiograffeg y gwnaethom ymweld â nhw, ac roeddent wedi'u cwblhau a'u llofnodi'n gywir gan ymarferwyr i ddangos bod y datguddiadau meddygol hyn wedi'u cyfiawnhau a'u hawdurdodi.

**<u>Manylion adnabod</u>**

*Mae Atodiad 1 (a) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i adnabod yn gywir yr unigolyn a fydd yn cael ei ddatguddio i ymbelydredd ïoneiddio.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig yn ymwneud â manylion adnabod cleifion.

Roeddent yn nodi'n glir y grwpiau staff hynny a oedd yn gyfrifol am gadarnhau manylion adnabod cleifion ac yn disgrifio'n fanwl y gweithdrefnau i'w dilyn. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r gweithdrefnau ysgrifenedig gynnwys mwy o fanylion ynghylch y gwiriadau ychwanegol y dylai gweithredwyr eu gwneud pe bai mân anghysondebau ym manylion adnabod cleifion.

Roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig yn nodi'r trefniadau lle byddai dau weithredwr yn cymryd rhan mewn cynnal gweithdrefn. Roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig hefyd yn disgrifio'r camau gweithredu i'w cymryd pan na fyddai cleifion yn gallu cadarnhau pwy oeddent, er enghraifft, oherwydd nam ar y synhwyrau neu ddiffyg galluedd meddyliol.

Roedd y staff adrannol y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn, a chawsom sicrwydd eu bod yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd pe bai unrhyw anghysondebau'n cael ei ganfod.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai gweithdrefnau'r cyflogwr (Gweithdrefn A) yn ymwneud â manylion adnabod cleifion gynnwys mwy o fanylion ynghylch y gwiriadau ychwanegol y dylid eu gwneud pan nodir bod mân anghysondebau ym manylion claf.***

**Menywod mewn oed i gael plant**

*Mae Atodlen 1 (d) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i holi menywod sydd mewn oed i gael plant er mwyn darganfod a yw menyw'n feichiog neu a allai fod yn feichiog.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer holi menywod sydd mewn oed i gael plant. Pwrpas hyn yw sefydlu a yw'r unigolyn yn feichiog neu a allai fod yn feichiog, neu'n bwydo ar y fron.

Roedd yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i'r staff eu dilyn, yn dibynnu ar yr ateb i'r cwestiwn 'ydych chi'n feichiog, neu ydy’n bosib eich bod chi’n feichiog?'.Roedd y staff adrannol y gwnaethom siarad â nhw’n gallu dangos eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion benywaidd wedi'i harddangos, a oedd yn eu cynghori i roi gwybod i'r gweithredwyr os ydynt yn feichiog neu o bosib yn feichiog.

**Datguddiadau meddygol-gyfreithiol**

*Mae Atodlen 1 (c) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i'w dilyn yn achos datguddiadau meddygol-gyfreithiol.*

O'r adrannau y gwnaethom ymweld â nhw, dywedwyd wrthym mai dim ond yn Ysbyty Cymuned Ystradgynlais yr oedd datguddiadau meddygol-gyfreithiol yn cael eu gwneud. Roedd y mathau hyn o ddatguddiadau wedi'u cyfyngu i sganiau pelydr-X o'r frest yn unig, ac i asesu salwch yr ysgyfaint yn gysylltiedig â diwydiant.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig yn ymwneud â datguddiadau meddygol-gyfreithiol. Roedd y weithdrefn yn nodi mai dim ond mewn ysbytai

cyffredinol dosbarth yr oedd y mathau hyn o ddatguddiadau'n cael eu gwneud. Felly, dylid adolygu a diwygio'r weithdrefn ysgrifenedig yn ôl yr angen i nodi'r trefniadau ar gyfer y math o weithdrefnau meddygol-gyfreithiol y gellir eu gwneud, os o gwbl, mewn ysbytai cymunedol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn E) yn ymwneud â gweithdrefnau meddygol-gyfreithiol, yn ôl yr angen, i egluro pa weithdrefnau meddygol-gyfreithiol y gellir eu cyflawni (os o gwbl) mewn ysbytai cymunedol o fewn y bwrdd iechyd.***

## Optimeiddio

*Mae Rheoliad 7 (1) yn nodi ei bod yn ofynnol cadw'r dosau ar gyfer pob datguddiad meddygol mor fach ag sy'n ymarferol bosibl, yn unol â'r diben.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ynghylch optimeiddio datguddiadau.

Roedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer sicrhau cadw datguddiadau meddygol mor isel ag sy'n ymarferol bosibl (cyfeirir at hyn yn aml fel ALARP). Gwelsom y manteisiwyd ar gyfleoedd i optimeiddio datguddiadau meddygol ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cofnodion a welsom. Nid oedd teitl y weithdrefn ysgrifenedig yn adlewyrchu cynnwys y weithdrefn yn glir, ac felly efallai y byddai'r cyflogwr yn dymuno ystyried rhoi teitl gwahanol i'r weithdrefn fel ei bod yn fwy ystyrlon i dimau staff.

## Pediatreg

*Mae Rheoliad 7 (7) (b) yn nodi y dylai'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i ddatguddiadau meddygol plant.*

Roedd protocolau ysgrifenedig y cyflogwr yn ymwneud â chyfiawnhau ac awdurdodi datguddiadau a sicrhau ansawdd yn nodi bod angen rhoi sylw arbennig wrth optimeiddio datguddiadau meddygol ar gyfer plant.

Gwelsom brotocolau clir ar gyfer datguddiadau meddygol plant ym mhob adran y gwnaethom ymweld â hi. Gwnaeth yr uwch staff adrannol ym mhob adran y gwnaethom ymweld â hi gadarnhau hefyd bod cymorth a chyngor ar gael gan Radiolegydd Pediatrig yn hyn o beth. Gwnaethom nodi fod hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

**Gwerthuso clinigol**

*Mae Rheoliad 7(8) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau y cofnodir gwerthusiad clinigol o bob datguddiad meddygol yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr.*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig a oedd yn ymwneud â dynodi atgyfeirwyr a gwerthuso datguddiadau.

Roedd y rhain yn nodi'r trefniadau yn ogystal â'r grŵp staff a oedd yn meddu ar yr hawl i asesu a chofnodi canlyniad datguddiadau meddygol. Yn ystod ein sgyrsiau gyda'r uwch staff adrannol, daeth yn amlwg bod unigolion yn gwerthuso datguddiadau clinigol, ac yn ôl y weithdrefn ysgrifenedig yn ymwneud â hawl, nid oedd y cyflogwr wedi rhoi'r hawl iddynt wneud hynny.

Mae gwerthuso clinigol yn swyddogaeth gweithredwr â hawl, ac rydym eisoes wedi nodi bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â hawl gweithredwyr yn gynharach yn yr adroddiad hwn (gweler yr isadran *Hawl*)

**Rhaglenni Ymchwil Feddygol**

*Mae Atodiad 1(h) RhYÏ(DM) yn gofyn bod gweithdrefn ar waith ar gyfer datguddiadau meddygol a wneir fel rhan o raglenni ymchwil.*

Dywedwyd wrthym na chynhelir datguddiadau meddygol fel rhan o raglenni ymchwil yn yr un o'r adrannau radiograffeg y gwnaethom ymweld â nhw. Mae'n bosib y byddai'r cyflogwr yn dymuno adlewyrchu hyn yn y ddogfen ysgrifenedig berthnasol yn ymwneud â dulliau gweithredu safonol.

**Archwiliadau clinigol**

*Mae Rheoliad 8 yn nodi y dylai gweithdrefnau'r cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, fel sy*'n briodol.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd i AGIC cyn ein hymweliadau arolygu yn cyfeirio at nifer o archwiliadau clinigol a gynhaliwyd ym mhob un o'r adrannau y gwnaethom ymweld â nhw.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau a wnaed. Dywedwyd wrthym y rhannwyd canlyniadau'r archwiliad hwn yn ystod y Pwyllgor Amddiffyn rhag Ymbelydredd Blynyddol i nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

**Cyngor arbenigol**

*Mae Rheoliad 9 (1) a 9 (2) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod Arbenigwr Ffiseg Feddygol ar gael yn ystod arferion safonol meddygaeth niwclear therapiwtig ac yn ystod arferion diagnostig meddygaeth niwclear, ac y dylai gymryd rhan fel y bo'n briodol ym mhob datguddiad meddygol radiolegol arall.*

Roedd yn amlwg o'n cyfarfodydd â'r uwch staff adrannol yn y tair adran y gwnaethom ymweld â nhw fod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol (MPEs) dan gontract o wahanol fyrddau iechyd yn cymryd rhan ac yn cyfrannu fel y bo'n briodol.

**Cyfarpar**

*Mae Rheoliad 10 yn gofyn bod gan y cyflogwr restr o gyfarpar cyfredol sy'n cynnwys enw'r gwneuthurwr, rhif y model, y rhif cyfresol, blwyddyn cynhyrchu'r cyfarpar, a blwyddyn gosod y cyfarpar.*

Roedd y cyflogwr yn darparu rhestrau cyfredol o'r offer radiolegol a ddefnyddiwyd yn y tair adran radiograffeg y gwnaethom ymweld â nhw. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth sy’n ofynnol dan y RhYÏ(DM).Pan wnaethom ganfod bod gwybodaeth ar goll, gwnaethom hysbysu uwch staff yr ysbyty a'r staff adrannol a gwnaethant gytuno i wneud trefniadau i gynnwys hyn ar y rhestrau.

### *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn cael ei darparu gan radiograffwyr arweiniol. O sgwrsio gyda staff o bob lefel a gymerodd ran yn yr arolygiad, roedd yn amlwg eu bod yn ymroddedig iawn i ddysgu oddi wrth yr arolygiad, ac i wneud gwelliannau fel y bo'n briodol.**

**Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd dwy swydd wag o fewn strwythur llywodraethu RhYÏ(DM) y bwrdd iechyd, a deallir y gwnaed ymdrechion sylweddol i roi sylw i'r swydd wag a oedd ar ôl, a bod y gwaith hwnnw'n parhau. Yn ogystal, disgrifiwyd cynlluniau i atgyfnerthu'r cymorth presennol oddi wrth fyrddau iechyd cyfagos, yr oedd gan y bwrdd iechyd gytundebau lefel gwasanaeth gyda nhw. Er bod trefniadau dros dro wedi'u disgrifio, roedd yn amlwg bod yn rhaid i'r arweinwyr tîm clinigol ysgwyddo gwaith a chyfrifoldeb ychwanegol, ac nid yw hynny, o bosibl, yn gynaliadwy yn y tymor hwy.**

Roedd arweinwyr tîm yn gyfrifol am reoli'r adrannau radiograffeg o ddydd i ddydd. Roedd un arweinydd tîm a oedd yn gyfrifol am yr adran yn Ysbyty Coffa Victoria ac un a oedd yn gyfrifol am Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu, Ysbyty Cymuned Ystradgynlais ac Ysbyty Llandrindod. Roedd yr olaf yn rhannu ei amser rhwng y tair adran. Gwelsom arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn cael ei darparu gan yr arweinwyr tîm.

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi bod dwy swydd wag ar adeg ein harolygiad o fewn strwythur llywodraethu RhYÏ(DM) y bwrdd iechyd. Er y dywedwyd wrthym fod trefniadau dros dro wedi'u sefydlu, roedd yn amlwg bod yn rhaid i'r arweinwyr tîm ysgwyddo gwaith a chyfrifoldeb ychwanegol, sef rhai Pennaeth Proffesiynol Radiograffeg. Roedd hyn yn ychwanegol at eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau sylweddol o ran rheoli eu hadrannau eu hunain o ddydd i ddydd. Efallai na fydd y trefniadau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Rhoddodd uwch staff y bwrdd iechyd a'r ysbyty sicrwydd cadarn ar lafar y gwnaed ymdrechion sylweddol i benodi i'r ddwy swydd allweddol hyn. Dywedwyd wrthym fod Cyfarwyddwr Therapi a Gwyddor Iechyd newydd wedi'i benodi a bod y person ar fin dechrau yn ei swydd. Yn ogystal, gwnaethant ddisgrifio cynlluniau i atgyfnerthu'r cymorth presennol oddi wrth fyrddau iechyd cyfagos, yr oedd gan y bwrdd iechyd gytundebau lefel gwasanaeth gyda nhw.

O ran y swydd Pennaeth Proffesiynol Radiograffeg, mae AGIC yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth benodi i'r swydd hon, ynghyd â

manylion sut y mae'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd hon (fel y nodir yn y *Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio*) yn cael eu bodloni yn y cyfamser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r cyflogwr roi diweddariad i AGIC ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran penodi Pennaeth Proffesiynol Radiograffeg, ynghyd â manylion sut y mae'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd hon yn cael eu bodloni'n effeithiol yn y cyfamser.***

O sgwrsio gyda staff o bob lefel a gymerodd ran yn yr arolygiad, roedd yn amlwg eu bod yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol. Er na welsom unrhyw broblemau'n ymwneud â diogelwch cleifion yn ystod ein harolygiad, gwelwyd bod angen gwella systemau llywodraethu. Pan gaiff Pennaeth Proffesiynol Radiograffeg ei benodi, rhagwelir y bydd gwelliannau yn hyn o beth.

Yn ystod ein cyfarfodydd adborth llafar, gwnaethom siarad ag uwch staff adrannol, uwch reolwyr yr ysbyty, ac aelod o dîm gweithredol y bwrdd iechyd. Roedd pob un ohonynt yn barod i dderbyn ein sylwadau a gwnaethant ddangos eu bod yn ymroddedig i ddysgu o ganlyniad i'r arolygiad ac i wneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella i ymdrin â'r argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn adrannau delweddu diagnostig Ysbyty Coffa Victoria, Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ac Ysbyty Cymuned Ystradgynlais yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau ac unedau eraill y bwrdd iechyd.

Bydd y cynllun gwella, ar ôl ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

*Atodiad A*

## RhYÏ(DM): Cynllun Gwella

## Ysbytai: Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng), Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ac Ysbyty Cymuned Ystradgynlais

## Adran: Delweddu Diagnostig

## Dyddiad yr Arolygiad: 13–15 Medi 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd Profiad y Claf** | | | |
| - | Dim angen cynllun gwella. | | | |
| | **Cydymffurfiaeth â RhYÏ(DM)** | | | |
| 11 | Dylai'r cyflogwr wneud trefniadau addas i adolygu a diwygio'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio er mwyn rhoi mwy o eglurder ac adlewyrchu'r trefniadau presennol. | | | |
| 12 | Rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau i sicrhau | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau cyfredol yn ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a'u bod yn cael eu rhoi iddynt. | | | |
| 13 | Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn J) yn ymwneud ag adrodd am ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n ofynnol gan AGIC wrth adrodd am ddigwyddiadau dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio. | | | |
| 15 | Rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau addas i sicrhau bod unigolion yn cael hyfforddiant priodol a rhoi'r hawl iddynt, fel ymarferwyr a gweithredwyr, wneud y tasgau gofynnol.<br><br>Rhaid adolygu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn C) yn ymwneud â hawliau a dynodi deiliaid dyletswyddau, i nodi'n glir grwpiau staff, cwmpas yr arfer, a'r gofynion o ran hyfforddiant i atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr sy'n meddu ar yr hawl. | | | |
| 16 | Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn F) ynghylch | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | cyfiawnhau ac awdurdodi fel y bo'n briodol er mwyn egluro'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau datguddiadau 'y tu allan i oriau' a'r cyfeiriad at y Protocol Archwilio ac Offer. | | | |
| 17 | Dylai gweithdrefnau'r cyflogwr (Gweithdrefn A) yn ymwneud â manylion adnabod cleifion gynnwys mwy o fanylion ynghylch y gwiriadau ychwanegol y dylid eu gwneud pan nodir bod mân anghysondebau ym manylion claf. | | | |
| 18 | Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn E) yn ymwneud â gweithdrefnau meddygol-gyfreithiol, yn ôl yr angen, i egluro pa weithdrefnau meddygol-gyfreithiol y gellir eu gwneud (os o gwbl) mewn ysbytai cymunedol o fewn y bwrdd iechyd. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 22 | Rhaid i'r cyflogwr roi diweddariad i AGIC ynglŷn â'r cynnydd a wneir wrth benodi Pennaeth Proffesiynol Radiograffeg, ynghyd â manylion sut y mae'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd hon yn cael eu bodloni'n effeithiol yn y cyfamser. | | | |

**Cynrychiolydd y Gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):** ..................................................................................................

**Teitl:** ..................................................................................................

**Dyddiad:** ..................................................................................................